

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)
Cyfarfod y Grŵp Gweithredu Strategol
Park Plaza, Caerdydd
Dydd Llun 23 Medi 2019
Crynodeb o'r cyfarfod

1. Croeso a chyflwyniadau

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i gyfarfod bwrdd y Grŵp Gweithredu Strategol. Dyma fyddai'r amcanion allweddol ar gyfer y cyfarfod hwn:

- rhoi diweddariadau ynghylch gwaith y grwpiau gorchwyl a gorffen hyd yma ac ynghylch y gwaith cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth
- ystyried y ffordd orau o rannu gwybodaeth rhwng y grwpiau gorchwyl a gorffen, y Grŵp Gweithredu Strategol a'r Dirprwy Weinidog
- ystyried y cynllun gwaith ar gyfer y Grŵp Gweithredu Strategol a'r grwpiau gorchwyl a gorffen.

2. Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir. Cytunwyd ar gylich gwaith y Grŵp Gweithredu Strategol a oedd wedi'i ddsbarthu cyn y cyfarfod. Cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio recriwtio aelodau o sefydliadau/sectorau perthnasol ychwanegol ac yn llunio cofnod cynhwysfawr o gamau gweithredu, a fyddai'n cael ei rannu â'r Grŵp Gweithredu Strategol a'r grwpiau gorchwyl a gorffen.

3. Diweddariad ynghylch hynt y Bil

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ynghylch hynt y Bil: yn dilyn y ddadl am egwyddorion cyffredinol ar 17 Medi, pan gytunodd y Senedd ar yr egwyddorion cyffredinol a'u pasio, roedd y Bil yn awr wedi symud yn ei flaen i'r cam craffu yng Nghyfnod 2, pan allai gael ei ddiwygio.

4. Diweddariad ynghylch y gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y grwpiau gorchwyl a gorffen

Diweddariad ynghylch cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ynghylch cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth.

Esboniwyd bod yr hyn a wnaed ers i'r Bil gael ei gyflwyno yn cynnwys gweithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol, rhyddhau fideo sy'n esbonio'r Bil, creu llythyr newyddion er mwyn rhoi diweddariadau i randdeiliaid, a chyflawni gwaith ym maes cysylltiadau cyhoeddus.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig y sawl a fydd yn gyfrifol am weithredu'r ddeddfwriaeth newydd neu'r sawl y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn effeithio arnynt yn eu swyddi proffesiynol, yn rhan bwysig o'r strategaeth codi ymwybyddiaeth a bydd y gwaith ymgysylltu hwnnw yn parhau'n rhan bwysig ohoni.

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu grŵp arbenigol ar gyfathrebu â rhanddeiliaid, a fydd yn cynnig cyngor ynghylch y strategaeth gyfathrebu. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n rhoi diweddariadau'n rheolaidd i'r Grŵp Gweithredu Strategol

ynghylch yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth a'r ymchwil gymdeithasol a gyflawnir i lywio'r ymgyrch honno, ac y byddai'n ystyried barn y Grŵp gan gynnwys ei farn ynghylch codi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid.

Cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ac aelodau'r grwpiau i lunio deunyddiau perthnasol ar gyfer y sawl sy'n gweithio gyda rhieni a theuluoedd. Cafodd y fideo esboniadol ei ddangos i'r Grŵp a chafodd ymateb cadarnhaol. Cytunwyd i anfon dolen gyswllt ar gyfer y fideo at bob un o'r aelodau.

Diweddariad ynghylch y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta

Mae'r Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta wedi'i ailffurfio. Bu'n ymwneud yn flaenorol â chreu'r ymgyrch 'Magu Plant. Rhowch amser iddo' ac adnoddau'r ymgyrch honno.

Dyma fydd amcanion y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta:

- hybu'r gwaith o ehangu'r ymgyrch 'Magu Plant. Rhowch amser iddo' er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc 0-18 oed, a datblygu adnoddau newydd sy'n berthnasol i'r gwaith ehangu;
- goruchwyllo'n strategol ddulliau ymarferol ac effeithiol o gyflwyno darpariaeth ychwanegol bosibl er mwyn cefnogi'r newid yn y gyfraith.

Bydd y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta yn helpu i benderfynu pa gymorth, cyngor a gwybodaeth ychwanegol ynghylch magu plant sy'n ofynnol i hybu newid mewn ymddygiad er mwyn cefnogi'r newid yn y gyfraith, a bydd hefyd yn nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gyfredol.

Diweddariad ynghylch y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro

Nod y grŵp yw ystyried dulliau o gasglu data ar draws sefydliadau er mwyn monitro effeithiau'r ddeddfwriaeth. Mae'r grŵp wedi cyfarfod ddwywaith er mwyn meithrin dealltwriaeth o brosesau a phwyntiau allweddol presennol ar gyfer trefniadau posibl i gasglu data. Un flaenoriaeth allweddol i ddechrau fyddai cydweithio â'r heddlu a gwasanaethau cymdeithasol i gyflwyno trefniadau ar gyfer casglu data er mwyn sefydlu llinell sylfaenol cyn bod y ddeddfwriaeth yn cychwyn.

Diweddariad ynghylch y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys a Chynllun Dargyfeirio

Pwrpas y grŵp yw darparu cyngor ac argymhellion ynghylch opsiynau ar gyfer defnyddio datrysiadau y tu allan i'r llys, a datblygu opsiynau ar gyfer cynllun dargyfeirio.

Hyd yma roedd y grŵp wedi bod yn canolbwyntio ar ddeall y cyd-destun presennol yng Nghymru o ran datrysiadau y tu allan i'r llys ar gyfer oedolion, a deall pa gynlluniau dargyfeirio sydd ar waith ar hyn o bryd yn ardal pob heddlu.

At hynny, roedd y grŵp wedi bod yn ystyried rhai o'r prif egwyddorion ar gyfer unrhyw gynllun dargyfeirio, a oedd yn cynnwys asesiadau o anghenion, gwaith adsefydlu, arferion magu plant, a chymorth.

Nododd y grŵp sawl opsiwn cyffredinol ar gyfer cynllun dargyfeirio, a oedd yn cynnwys:

- Darparwr cenedlaethol
- Cynllun dargyfeirio wedi'i deilwra
- Cyfeirio pobl at gynlluniau sy'n bodoli eisoes
- Cyfeirio pobl at gymorth sy'n bodoli eisoes ar gyfer y sawl sy'n magu plant.

Mae gan Gymru ddull cenedlaethol o ymdrin â chynlluniau dargyfeirio ar gyfer plant a phobl ifanc dan 18 oed, a themlid y dylai'r modd yr ymdrinnir â'r sawl sy'n rhieni dan 18 oed a gaiff eu cyhuddo o gosbi plentyn yn gorfforol ehangu'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes. Cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn trafod hynny â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid er mwyn sicrhau bod yr hyn a wneir yn cyd-fynd â'r Glasbriant ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid i Gymru.

Diweddariad ynghylch y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Weithrediadau, Canllawiau a Hyfforddiant

Roedd y grŵp wedi bod yn canolbwyntio i ddechrau ar ddeall y prosesau presennol sydd ar waith mewn sefydliadau, ac roedd yr aelodau wedi bod yn darparu gwybodaeth am ganllawiau, hyfforddiant a phwyntiau cyswllt ynghylch gwaith atal a defnyddio cyngor a gwybodaeth i dargedu rhieni.

5. Gweithdy – Ystyried a chymeradwyo'r cynllun gwaith lefel uchel

Rhannodd yr aelodau yn grwpiau bach i ystyried y cynllun gwaith a rhoi sylwadau arno. Ar ôl cael eu sylwadau, cytunwyd ar y cynllun gwaith ar yr amod bod llinell amser yn cael ei hychwanegu ato a fyddai'n cynnwys y tasgau a'r dyddiadau allweddol ar gyfer y gwaith cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth. Byddai'r cynllun gwaith yn ddogfen fyw a byddai modd ei adolygu wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Cytunwyd hefyd ar y broses y dylai'r grwpiau gorchwyl a gorffen ei dilyn er mwyn cyflwyno adroddiadau i'r Grŵp Gweithredu Strategol.

6. Sylwadau clo

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniadau a'u sylwadau.